

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Awst 2018

**STATWS: GWYBODAETH**

**CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL**

**Title: Canllawiau ar Reoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol wrth eu gwaith**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol**

**I'w weithredu gan:**

Brif Weithredwyr; Cyfarwyddwyr Meddygol; a Chyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddorau Iechyd yr Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd

**Er gwybodaeth:**

Cadeiryddion, Cyfarwyddwyr Nyrso ac Ysgrifenyddion Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG  
Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru  
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru  
Tîm Gweithrediadau – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru  
Tîm Cyfathrebu – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru  
Prif Swyddog Meddygol  
Dirprwy Brif Swyddog Meddygol  
Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Cymru  
Prif Swyddog Deintyddol

**Angen gweithredu erbyn: I gael effaith ar unwaith**

**Anfonwyd gan:** Dr Rob Orford, Prif Ymgynghorydd Gwyddonol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Enw (au) Cyswilt AIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Dr Rob Orford, Prif Ymgynghorydd Gwyddonol, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. 0300 258315,  
[healthcarescienceandtherapies@gov.wales](mailto:healthcarescienceandtherapies@gov.wales)

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim



16 Awst 2018

Annwyl Gyfaill

**CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLIADAU YMBELYDREDD ÏONEIDDIO (CYSYLLTIAD MEDDYGOL) 2017 I GYFLOGWYR A GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL SY'N DEFNYDDIO YMBELYDREDD MEDDYGOL WRTH EU GWAITH**

1. Roedd WHC/2018/007 yn rhoi gwybod i sefydliadau GIG Cymru am eu rhwymdigaethau i sicrhau cydymffurfedd â gofynion y Rheoliadau newydd sy'n ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio. Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn yn darparu canllawiau i gyd-fynd â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 ("y Rheoliadau"), ac felly dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Rheoliadau hynny. Ni fwriedir i'r ddogfen ganllaw hon fod yn ddogfen orfodi, ac ni all gymryd lle cyngor cyfreithiol. Mae'r canllawiau ar gael trwy glicio ar y ddolen isod;

<https://www.gov.uk/government/publications/ionising-radiation-medical-exposure-regulations-2017-guidance-2017>


2. Mae'r Rheoliadau'n rhoi ar waith ym Mhrydain Fawr (a Gogledd Iwerddon) ran o ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb Cyngor 2013/59/Euratom dyddiedig 5 Rhagfyr 2013 (y Gyfarwyddeb Diogelwch Sylfaenol) sy'n gosod y safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer amddiffyn pobl rhag peryglon a all godi o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio.
3. Mae'r Rheoliadau'n rhoi sylw i'r angen i amddiffyn unigolion sy'n dod i gysylltiad meddygol ag ymbelydredd Ïoneiddio fel rhan o'u diagnosis neu driniaeth feddygol, neu fel unigolion heb symptomau sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, neu fel unigolion sy'n defnyddio offer radiolegol meddygol ar gyfer delweddu anfeddygol, neu fel unigolion sy'n cysuro neu'n gofalu am gleifion sy'n dod i gysylltiad meddygol ag ymbelydredd Ïoneiddio.
4. Mae'r Rheoliadau'n rhoi dyletswyddau ar gyflogwyr ac ar y rheini sy'n gyfrifol am gyflawni gweithgareddau y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt, gan gynnwys cael y gorau o gysylltiadau meddygol a'u cyfiawnhau, a hefyd rhoi ymbelydredd Ïoneiddio.

**Cam Gweithredu**

5. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y canllawiau hyn ymlaen at gydweithwyr a staff, fel y bo'n briodol.



Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of several overlapping loops and a long horizontal tail extending to the right.

**DR ROB ORFORD**